Adroddiad

# CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD

68fed  Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad

*6-12 Hydref 2025*

*Bridgetown,* Barbados



**Llun** :*Alun Davies AS a Natasha Asghar AS y tu allan i Senedd Barbados.*

## Cynnwys:


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cefndir, Crynodeb ac Uchafbwyntiau | t.3 |
| 2 | Adroddiad gan Natasha Asghar AS | t.4 |
| 3 | Adroddiad gan Alun Davies AS | t.9 |
| 4 | Datganiad Cloi a Diolchiadau | t.12 |

## Cefndir, Crynodeb ac Uchafbwyntiau

Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (CPC) yw cyfarfod blynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA). Mae'n un o gyfarfodydd mwyaf y Gymanwlad, gan ddwyn ynghyd dros 500 o Seneddwyr yn cynrychioli dros 180 o Ganghennau seneddol, o bob rhan o naw Rhanbarth y Gymdeithas.

Cynhaliwyd 68fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad rhwng 6 a 12 Hydref 2025 yn Bridgetown, Barbados. Thema'r Gynhadledd oedd "***Y Gymanwlaad: Partner Byd-eang***".

Gwahoddwyd Cangen Cymru (y Senedd) o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, fel rhan o'i strwythur ffioedd, i anfon un cynrychiolydd gyda'r opsiwn o gael ei chynrychioli gan gyfranogwyr 'arsylwi' ychwanegol yn y gynhadledd.

Roedd dirprwyaeth y Senedd yn cynnwys Natasha Asghar AS (Cynrychiolydd Pleidleisio), Alun Davies AS (Arsyllydd y Gynhadledd) ac Al Davies (Ysgrifennydd Dros Dro Cangen Senedd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad).

Ymgorfforodd 68fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad 9fed Cynhadledd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad (CWP), yn ogystal ag ethol Cadeirydd newydd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad, **Yr Anrhydeddus Catherine Fife, Aelod Seneddol** (Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Ontario)

Cadeiriodd Natasha Asghar AS weithdy yn y gynhadledd ar '**Seneddau Cenedlaethol v Deddfwrfeydd Taleithiol, Tiriogaethol a Datganoledig: Diogelu a Chadw Gwahanu Pwerau'**

Dyfarnwyd Gwobr Seneddwr Newydd 2025 Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad i **James Evans AS.**

Roedd y Senedd yn ddiolchgar am y gwahoddiad i dderbyniad a gynhaliwyd gan Ei Ardderchogrwydd Simon Mustard, Uchel Gomisiynydd Barbados, ym Mhreswylfa'r Uchel Gomisiynydd.

***Adroddiad Natasha Asghar AS***




Llun:Natasha Asghar AS yn cynrychioli'r Senedd yn y 68ain^fed Cynulliad Cyffredinol y CPC.

Fel rhywun sydd wrth ei bodd yn cael bod yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, rydw i wedi bod yn ffodus i ymweld â rhai lleoedd anhygoel y tymor hwn a phan ddaeth cyfle i fynd i Barbados i fynychu etholiad Cynhadledd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad (yr oeddwn wedi clywed ei fod yn brofiad anhygoel) roedd yn rhaid i mi ei weld drosof fy hun. Er bod mis Hydref yn cael ei ystyried yn 'dymor corwyntoedd', nid oedd dim yn mynd i ddifetha awyrgylch y gynhadledd hon, a chyn gynted ag y cyrhaeddais yno roedd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad yn barod i weithredu.

Mae'r CWP yn gangen o'r CPA sydd yno i gefnogi, annog ac ysbrydoli menywod o bob cwr o'r byd i uno gyda'i gilydd ac ysgogi menywod eraill i gamu i'r byd gwleidyddol ac aros yno waeth beth fo'u brwydrau personol a phroffesiynol. Roedd sesiwn y menywod, a barodd drwy'r dydd, yn cynnwys yr etholiad ac yn trafod nifer o faterion mewn amrywiaeth o drafodaethau panel a grwpiau ffocws.
Y pynciau a drafodwyd:

*1) A oes lle i seneddau sy'n sensitif i rywedd gael eu deddfu'n gyfraith?* A dweud y gwir, rwy'n credu mewn system meritocratiaeth, a dylid rhoi perchnogaeth yn nwylo pleidiau gwleidyddol yn hytrach na'r sefydliad gwleidyddol ei hun.
*2) Pa mor anodd y gall fod i rai menywod gael eu clywed mewn proffesiwn lle mae dynion yn dominyddu.*

*3) Beth gellir ei wneud i annog rhagor o fenywod i gamu i'r byd gwleidyddol*
*4) Sut nad yw cynlluniau rhai seneddau yn gyfeillgar i deuluoedd neu hyd yn oed yn hawdd eu cyrraedd yn gorfforol i'r rhai sydd â phroblemau symudedd.*

Gyda dros 120 o gynrychiolwyr benywaidd yn bresennol, roedd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf bod gan lawer o wledydd, yn anffodus, agweddau misogynistaidd cryfach i ymdopi â nhw a bydd newid agweddau traddodiadol iawn mewn rhai achosion yn gorfod dechrau mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys addysg (ar bob lefel). Yn anffodus, hyd yn oed yn 2025, mae agweddau diwylliannol rhai gwledydd yn parhau i fod yn rhwystro llawer o fenywod rhag camu i'r byd gwleidyddol ac os ydynt yn gwneud hynny mae llawer o'r farn eu bod yn cael eu gwneud i deimlo'n 'llai na' er iddynt sefyll mewn etholiad a chael eu hethol yn briodol, yn union fel eu cydweithwyr. Yn amlwg, mae gennym ffordd bell i fynd o hyd i sicrhau cydraddoldeb gwirioneddol i fenywod mewn gwleidyddiaeth ledled y byd, ac mae wedi gwneud i mi werthfawrogi fy nghydweithwyr fy hun yng Nghymru sydd bob amser wedi dangos y parch mwyaf i mi.
Ar ôl cymryd rhan ym mhob un o'r sesiynau, rwy'n hyderus y gellir cyflawni hyn trwy ragor o ddeialog a gwell dealltwriaeth. Roedd llawer wedi synnu at natur flaengar Senedd Cymru ac roedd pawb wedi'u syfrdanu gan waith ein cawcws menywod trawsbleidiol, sy'n gweithio'n llwyddiannus i uno menywod o bob plaid wleidyddol yn Senedd Cymru i weithio gyda'i gilydd er lles pawb.
Cafwyd etholiad brwd ar gyfer swydd Cadeirydd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad, ac ar ôl tair rownd o bleidleisio roeddwn wrth fy modd yn gweld Catherine Fife AS o Ganada yn ennill y bleidlais ar gyfer swydd nodedig Cadeirydd Seneddwyr Benywaidd y Blaid, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd hi'n gwneud gwaith rhagorol yn ei rôl newydd, ac ar ran cangen Cymru rwy'n dymuno'r gorau iddi.

**<u>Sesiynau Gweithdy</u>**

O'r ail ddiwrnod hyd at ddiwedd yr wythnos cynhaliwyd sawl sesiwn gyda thrafodaethau panel ac fe wnes i fwynhau mynd i bob un ohonyn nhw'n fawr. Gwnaeth y lefelau lleithder dwys, hyd yn oed, ddim difetha'r hwy i ddysgu gan wledydd eraill am eu problemau a'u brwydrau mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin. Roedd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf bod gwledydd y CPA yn wynebu nifer o heriau o ran diffyg diogeledd bwyd, amrywiaeth, canlyniadau'r pandemig ac ansicrwydd gwleidyddol. Yn anffodus, nid yw'r heriau'n cadw'n benodol i ffiniau, felly rwyf bob amser yn gwerthfawrogi deall sut mae gwledydd eraill yn ymdrin â phroblemau a heriau i helpu eu heconomïau i ffynnu, oherwydd gydag economi gref gall yr holl bethau rydym ni eu heisiau fel gwell gofal iechyd, addysg, ffyrdd ac ati fod yn bosibl pan fyddwn ni'n gallu eu hariannu'n ddigonol.



**Llun**: Natasha Asghar MS yn Cadeirio Gweithdy CPC

Roedd yn anrhydedd i mi gael cais i gadeirio sesiwn grŵp o'r enw ***Seneddau Cenedlaethol v Deddfwrfeydd Taleithiol, Tiriogaethol a Datganoledig: Diogelu a Chadw Gwahanu Pwerau***. Roedd yn gyfle gwych i ddysgu am faterion yn ymwneud â Seneddau ac awdurdodaethau eraill. Yn fy nghyflwyniad, amlinellais hanes a ffurf y Senedd, sut y gall materion datganoledig greu dryswch ymhlith y cyhoedd a'r rhwystredigaethau sydd ynghlwm â fformiwla Barnett, ac waeth beth yw ein barn wleidyddol arni, bod cred gyffredin y dylid ei hailystyried. Siaradodd fy nghyd-banelwyr, Cadeirydd Rajya Sabha India, yr Anrhydeddus Harvinash Narayan Singh, am y cynnydd y mae India wedi'i wneud o ran eu hamrywiaeth, eu cynhwysiant a'u datblygiadau technolegol. Ochr yn ochr â hynny, siaradodd Lydia o'r CPA yn fanwl am egwyddorion Tŷ Latimer a pha mor bwysig yw hi i aelodau'r CPA o bob sefydliad ymarfer '*cyfrifoldeb ac ataliad*' wrth arfer pŵer o fewn eu meysydd cyfansoddiadol eu hunain er mwyn peidio ag amharu ar gyflawni swyddogaethau cyfansoddiadol yn gyfreithlon gan y sefydliadau eraill.
Cyfrannodd llawer o aelodau at y drafodaeth, ond elfen fwyaf cyffredin yr adborth a gafwyd oedd bod angen i ni ddod o hyd i atebion ar y cyd i'r problemau rydym yn eu hwynebu. Yn naturiol, gyda chymaint o wledydd gwahanol yn rhan o'r CPA, mae ein problemau, ein pwerau a'n cyllid yn wahanol iawn. Felly, wrth symud ymlaen, dywedom y dylem ystyried sesiynau lle gallwn godi materion a ffurfio grwpiau i ddod o hyd i atebion ar y cyd yn ôl sefydliadau gwleidyddol sy'n debyg o ran maint a swyddogaeth.

Mwynheais araith Om Birla, Llefarydd y Lok Sabha a Chadeirydd rhanbarthau'r CPA, yn fawr iawn, ochr yn ochr â'i drafodaeth banel ar dechnoleg. Siaradodd yn angerddol am benderfyniad hanesyddol India i gadw traean o'u seddi yn y Senedd a deddfwrfeydd taleithiol i fenywod ac yn hanesyddol pa mor ddibynnol oedd India ar ddiogelwch bwyd. Yn 2025, fe'u hystyrir yn bartner dibynadwy ar gyfer bwyd byd-eang. Siaradodd yn fanwl am ddeallusrwydd artiffisial a thechnoleg o fewn gwleidyddiaeth India, yn enwedig y potensial sydd ganddo i wneud sefydliadau democrataidd yn fwy tryloyw ac effeithlon. Yn ystod ei gyfraniad dywedodd un llinell a wnaeth argraff fawr arnaf '*Rhaid inni sicrhau bod technoleg yn parhau i fod yn offeryn i wasanaethu dynoliaeth, nid i'w dominyddu'*.
Fel eiriolwr brwd dros dechnoleg, rwy'n gweld pwysigrwydd technoleg a deallusrwydd artiffisial. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn eu defnyddio'n synhwyrol, yn foesegol ac yn peidio cael gwared a'r hanfod dynol sydd ei angen o hyd mewn llawer o rolau, ac ar y cyd fel CPA yn sicrhau bod ein deddfwrfeydd yn gyfarwydd â'r gyfraith sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial, oherwydd gan ei fod yn datblygu ar gyflymder anhygoel mae'n fuddiol i ni weld bod cyfreithiau ein gwledydd priodol yn unol â'r hyn sydd eto i ddod.

Ar ddiwedd yr wythnos roeddwn i'n falch o gynrychioli Cymru yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Daeth nifer o siaradwyr i'r llwyfan o wahanol rannau o'r byd i rannu eu profiadau, eu teimladau a'r pynciau yr hoffent eu trafod yn y dyfodol. Dywedodd llawer eu bod am drafod y gwrthdaro yn Israel a Phalesteina i geisio dod o hyd i ddatrysiad heddychlon trwy ddefnyddio'r CPA fel corff ar ffurf Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd (NATO). Siaradodd eraill am eu profiadau o fewn y CPA. Soniodd rhai am eu gyrfaoedd gwleidyddol ac eglurodd eraill yr anawsterau maen nhw'n eu hwynebu mewn byd ôl-Covid.
Roedd yn brofiad diddorol a chalonogol iawn gweld gwleidyddion o bob cwr o'r byd yn dod ynghyd i wrando'n amyneddgar ar ei gilydd, i ddeall rhwystredigaethau a rennir ac i addo i weithio gyda'n gilydd tuag at ganlyniad hirdymor gwell i bob un ohonom.

**<u>ExCo</u>**

Un elfen o CPA nad ydym yn siarad amdani yn aml yw Exco (y talfyriad ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol y CPA). Dyma brif gorff llywodraethu Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ac mae'n gyfrifol am reolaeth a chyfeiriad cyffredinol holl weithgareddau a busnes y Gymdeithas megis rheolaeth strategol, goruchwyliaeth ariannol, cyfrifyddu ac adrodd, cynrychioli a chefnogi'r Ysgrifenyddiaeth.
Yn draddodiadol, mae'r Exco yn cwrdd ychydig cyn ac ar ôl y Cynulliad Cyffredinol ac yn cynnal ail gyfarfod hanner ffordd rhwng Cynulliadau Cyffredinol mewn awdurdodaeth wahanol o'r Gymanwlad. Cafodd ei gynnal y tro hwn yn Barbados. Oherwydd Covid, cadwodd yr Alban eu sedd ar ExCo am ychydig rhagor o flynyddoedd. Felly, yn ystod y gynhadledd yn Barbados, cefais yr anrhydedd ar ran

Cymru i gymryd yr awenau oddi wrth Stuart McMillan ASA, sydd wedi gwneud gwaith rhagorol fel un o dri chynrychiolydd rhanbarthol Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) y CPA ar Bwyllgor Gweithredol rhyngwladol y CPA (ExCo), ac rwy'n edrych ymlaen at ddeall mwy am rôl, cyfrifoldebau a chylch gwaith yr ExCo yn y dyfodol.




Llun: Natasha Asghar AS ac Aelodau Pwyllgor Gweithredol Rhyngwladol newydd y CPA.

**Ymweliadau**

Yn ystod ein hamser yn y gynhadledd a oedd yn llawn sesiynau dwys o fore gwyn tan nos, roedd yn bleser cael ein croesawu gan Brif Weinidog ac Arlywydd Barbados mewn derbyniad agoriadol gydag areithiau teimladwy, dawnswyr ac adloniant rhagorol.

Dilynwyd hyn gan dderbyniad a chinio ym mhreswylfa'r Prif Weinidog lle cawsom seremoni wobrwyo hyfryd i anrhydeddu aelodau'r CPA o bob cwr o'r byd.

Ar noson arall, bu Uchel Gomisiynydd Prydain, Ei Ardderchogrwydd Simon Mustard, mor garedig â'n gwahodd i'w breswylfa. Roedd yn ddiddorol clywed ei safbwynt ar Barbados gan mai dim ond ers ychydig fisoedd yr oedd wedi bod yn y rôl. Mae’r holl ddigwyddiadau hyn wedi fy ngwir ysbrydoli a’m gwneud yn ddiolchgar am y cyfle hwn i gyfnewid syniadau byd-eang yn Barbados.

***Adroddiad gan Alun Davies AS***



Llun: *Alun Davies AS a Natasha Asghar AS gydag Aelodau eraill o Ranbarth BIM.*

**Cyflwyniad**

Dyma oedd y tro cyntaf i mi fynychu Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (CPC) flynyddol. Mae'n sicr yn fforwm rhyngwladol nodedig sy'n dod â seneddwyr o bob cwr o'r byd ynghyd. Un o nodweddion mwyaf trawiadol y digwyddiad i mi fel cynrychiolydd am y tro cyntaf oedd ei amrywiaeth, ynghyd ag ymrwymiad i ddeialog a dysgu oddi wrth ein gilydd.

Roedd y CPC hwn wedi'i wreiddio yn ymrwymiad parhaus y sefydliad i gryfhau sefydliadau democrataidd, meithrin llywodraethu da, ac ymdrin â'r heriau cyffredin y mae cenhedloedd ar draws y Gymanwlad yn eu hwynebu. Nod yr adroddiad hwn yw ceisio rhoi trosolwg o'm cyfraniadau a'r hyn a ddysgais i ni yng Nghymru. Dyma hefyd oedd y CPC cyntaf i'w chynnal ers y newidiadau i statws cyfreithiol y CPA ac o'r herwydd roedd yna drafodaethau cychwynnol ynghylch sut y gall y statws rhyngwladol newydd hwn helpu i hwyluso dylanwad y Gymanwlad ymhellach ar lwyfan y byd.

**Trosolwg o'r Gynhadledd**

Cafodd agenda'r gynhadledd ei churadu i hwyluso sesiynau llawn, gweithdai thematig, cyfarfodydd dwyochrog, a chyfnewidiadau diwylliannol anffurfiol. Galluogodd y dull amlochrog hwn i seneddwyr gymryd rhan nid yn unig mewn dadleuon polisi sylweddol ond hefyd mewn fforymau llai a oedd yn annog ac yn galluogi dealltwriaeth gydfuddiannol, dysgu ar draws gwahanol ddiwylliannau a thraddodiadau deddfwriaethol.

Roedd y seremoni agoriadol yn cynnwys anerchiadau gan Arlywydd a Phrif Weinidog Barbados, ac yna Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymanwlad ymhlith eraill. Pwysleisiodd y seremoni bwysigrwydd parhaol amlochroldeb a gweithredu ar y cyd wrth wynebu materion byd-eang a rhanbarthol cyfoes. Ond ceisiodd yr arweinwyr o Barbados hefyd bwysleisio pwysigrwydd ailddosbarthiadau wrth fynd i'r afael ag etifeddiaeth gwladychiaeth. Gosododd eu sylwadau'r naws ar gyfer wythnos a nodweddwyd gan ddadlau cadarn ac ymrwymiad cyffredin i ddysgu a hyrwyddo'r egwyddorion sy'n sail i'r Gymanwlad gyfan.

**Themâu a thrafodaethau allweddol**

Drwy gydol y gynhadledd, daeth nifer o bileri thematig i'r amlwg fel pwyntiau trafod canolog:

- Gwydnwch ac Adferiad Ôl-bandemig: Trafododd y cynrychiolwyr yn helaeth y strategaethau sydd eu hangen i wella ar ôl yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd dwys a achoswyd gan bandemig COVID-19. Yn benodol, canolbwyntiodd y sgwrs ar gryfhau seilwaith iechyd cyhoeddus, cefnogi adfywiad economaidd, a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau cymdeithasol, economaidd a byd-eang a amlygwyd mor drawiadol gan y pandemig.

- Newid hinsawdd a Datblygu Cynaliadwy: Fel ynys fach sy'n datblygu'n wladwriaeth, chwaraeodd Barbados ran flaenllaw wrth dynnu sylw at y gwendidau acíwt y mae cenhedloedd o'r fath yn eu hwynebu. Aeth y gynhadledd i'r afael â'r angen brys am gydweithrediad byd-eang ar addasu a lliniaru effeithiau hinsawdd, defnyddio cyllid hinsawdd rhyngwladol, a rôl seneddau wrth hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy. Cyfarfûm â nifer o gynrychiolwyr o daleithiau Ynysoedd y Môr Tawel sy'n arbennig o bryderus y bydd newid hinsawdd yn cael effaith ddirfodol arnynt ac sydd yn credu nad yw hyn yn cael ei gymryd o ddifrif ddigon yn y Gogledd Byd-eang.

- Llywodraethu da a diwygio seneddol: Mynychais nifer o seminarau a gweithdai a oedd yn mynd i'r afael â'r angen am dryloywder, atebolrwydd a diwygio sefydliadol. Dangosodd astudiaethau achos o wahanol aelod-wladwriaethau arferion gorau o ran goruchwyliaeth ddeddfwriaethol, ymgysylltu â dinasyddion, a moderneiddio gweithdrefnau seneddol. Roedd yn dda dysgu bod Cymru yn un o'r gwladwriaethau sydd â hanes da o ddatblygu goruchwyliaeth seneddol gadarn a phwerus o'r weithrediaeth.

- Ymgysylltiad ieuenctid a chydraddoldeb rhywedd: Gan gydnabod gwerth llywodraethu cynhwysol, neilltuodd y gynhadledd sylw sylweddol i hyrwyddo cyfranogiad ieuenctid a chydraddoldeb rhywedd o fewn prosesau seneddol.

Trafododd y cynrychiolwyr rwystrau i gynrychiolaeth a nodwyd strategaethau ar gyfer grymuso grwpiau sydd ar yr ymylon i gyfrannu'n weithredol at fywyd cyhoeddus. Dyma faes eto lle gallai profiad Cymru lywio gwladwriaethau sydd nawr yn dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn yn weithredol. Mae hefyd yn faes lle mae rhai gwahaniaethau diwylliannol sylweddol rhwng rhai o wledydd y Gymanwlad.

- Technoleg a thrawsnewid digidol: Mewn oes o ddatblygiadau technolegol chwim, roedd mabwysiadu offer digidol mewn lleoliadau seneddol yn bwnc o ddiddordeb sylweddol. Archwiliodd y trafodaethau botensial technoleg i wella effeithlonrwydd deddfwriaethol, i sicrhau seiberddiogelwch, a phontio'r bwlch digidol ar draws y Gymanwlad. Mynychais gyflwyniad hynod ddiddorol ar le deallusrwydd artiffisial mewn gwaith seneddol ac rwy'n glir bod hwn yn faes lle mae angen i ni i gyd ddysgu deall y cyfleoedd yn ogystal â'r peryglon posibl.

**I gloi**

Roedd aelodau mwy profiadol na mi o'r farn bod y gynhadledd hon wedi bod yn rhan dda a phwysig o daith i'r CPA. Cytunwyd ar gyllideb y CPA heb fawr o anghytundeb a chafwyd nifer o ddadleuon pwysig ynghylch cyfeiriad y CPA yn y dyfodol a sut i ddefnyddio ei statws newydd. Bydd y dadleuon hyn yn parhau ac yn datblygu dros y blynyddoedd sydd i ddod. Yn y modd hwn, disgwylir i'r trafodaethau a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y gynhadledd gael effaith barhaol ar arfer seneddol a chydweithrediad rhyngwladol ar draws y Gymanwlad.

# Datganiad Cloi ac Adnoddau'r Gynhadledd.

**68fed CPC: Datganiad Cloi'r Gynhadledd**
Mae **Datganiad Cloi y Gynhadledd** ar gyfer 68fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (CPC) a gynhaliwyd yn Bridgetown, Barbados rhwng 5 a 12 Hydref 2025, ac a gynhaliwyd gan Senedd Barbados a Changen Barbados o'r CPA ar gael ar Wefan CPA neu drwy glicio yma.

Cyhoeddir crynodeb lawn o holl newyddion y gynhadledd ac adroddiadau'r gweithdai o 68fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad fel atodiad ar-lein i'r CPA Journal, *The Parliamentarian* a y gyhoeddir ym mis Rhagfyr 2025.

**68fed CPC: Lluniau**
Mae **lluniau o ddigwyddiadau'r 68fed CPC** ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho ar Dudalen Flickr y CPA. Credyd ar gyfer lluniau: *Pencadlys CPA/Senedd Barbados*.

**68fed CPC: Fideos**
Ceir **fideo uchafbwyntiau** o'r 68fed CPC drwy Sianel You Tube y CPA.

I wylio **trydedd ddarlith Lifaka y CPA** gan Brif Weinidog Barbados, yr Anrhydeddus Mia Amor Mottley, SC, AS, gwyliwch y fideo ar Sianel YouTube Senedd Barbados.

## Diolchiadau

Hoffai Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad gofnodi ei diolch diffuant i'r canlynol:

Cangen CPA Barbados
Sarah Dickson OBE a Helen Haywood (Ysgrifenyddiaeth BIMR)
Yr Ysgrifennydd Cyffredinol Stephen Twigg a staff Ysgrifenyddiaeth y CPA.
Uchel Gomisiwn Prydain yn Barbados.